



Ein cyf/Our ref: MA(L)/ARD/0551/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales

21 Medi 2017

Annwyl Simon,

Fe fues i yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid heddiw i ddarparu tystiolaeth mewn perthynas â'r asesiad effaith rheoleiddiol (RIA) ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), a goblygiadau ariannol y Bil hwnnw. Yn ystod y sesiwn, ymrwymais i ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y 'costau suddedig' a ddaeth i ran Llywodraeth Cymru yn 2015-16 a 2016-17. Amlinellwyd y rhain yn y fersiwn o'r RIA a gyflwynwyd gyda'r Bil ym mis Rhagfyr 2016, ond cawsant eu dileu o'r fersiwn ddiwygiedig o'r RIA a ddarparwyd i chi yn gynharach y mis hwn.

Fel yr esboniais i'r Pwyllgor bore 'ma, y bwriad wrth ddrafftio'r RIA gwreiddiol oedd cynnwys y costau hyn er mwyn dangos y buddsoddiad llawn o ran helpu partneriaid cyflenwi i baratoi ar gyfer y system ADY newydd. Fodd bynnag, ar ôl cnoi cil ar y mater, penderfynwyd dileu'r costau suddedig. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi, sy'n nodi y dylai costau nwyddau a gwasanaethau sydd eisoes wedi'u talu ac nad oes modd eu hadfer gael eu hanwybyddu mewn arfarniad. Nodir hefyd mai 'costau suddedig' yw'r rhain, ac mae'r hyn sy'n bwysig yw costau y gellir gwneud penderfyniadau yn eu cylch o hyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhestrodd y fersiwn wreiddiol o'r RIA y costau pontio 'suddedig' canlynol:

Costau pontio Llywodraeth Cymru yn yr RIA gwreiddiol (Rhagfyr 2016) – costau suddedig

	2015/16	2016/17
Cronfa Arloesi ADY		1,100,000.00
Grŵp Gweithredu Strategol a Grwpiau Arbenigol ADY		40,000.00
Grant ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person (awdurdodau lleol)	286,000.00	286,000.00
Grant ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person (SABau)	14,000.00	14,000.00
Codi ymwybyddiaeth ac adnoddau		55,000.00
Parodrwydd, cydymffurfiaeth a monitro effaith		25,000.00
Costau suddedig (2015/16 - 2016/17)	300,000.00	1,520,000.00

Roedd y gwariant gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn wahanol i'r costau a ragamcanwyd uchod, gan fod derbynwyr grantiau wedi hawlio llai na'u dyraniad grant gwreiddiol. Mae'r tabl isod yn darparu'r gwariant gwirioneddol ar weithgareddau:

Costau suddedig gwirioneddol	2015/16	2016/17
Cronfa Arloesi ADY		770,795.36
Grŵp Gweithredu Strategol a Grwpiau Arbenigol ADY		30,160.65
Grant ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person (awdurdodau lleol)	286,000.00	286,000.00
Grant ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person (SABau)	14,000.00	0
Codi ymwybyddiaeth ac adnoddau		58,358.16
Parodrwydd, cydymffurfiaeth a monitro effaith		27,408.60
Costau suddedig (2015/16 - 2016/17)	300,000.00	1,172,722.77

Fe sylwch fod y gwariant gwirioneddol yn 2016-17 **£347,277.23** yn llai nag a ragamcanwyd yn wreiddiol. Roedd y gwahaniaethau i'r rhagolygon fel a ganlyn:

- Gostyngiad o £329,204.64 ar gyfer Cronfa Arloesi ADY: a oedd yn gysylltiedig â derbynwyr grantiau'n tanhawlio ar ddiwedd y flwyddyn, i adlewyrchu costau gwirioneddol y gweithgareddau sy'n destun yr hawliadau;
- Gostyngiad o £9,839.35 ar gyfer Grŵp Gweithredu Strategol a Grwpiau Arbenigol ADY: nid oedd y cyfanswm llawn yn ofynnol ar gyfer y cyfarfodydd a'r gweithgareddau a gynhaliwyd;
- Gostyngiad o £14,000.00 ar gyfer grantiau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person i SABau, gan na hawliwyd y swm hwn;
- Cynnydd o £3,358.16 ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac adnoddau, a gafodd ei gynnwys yn y gyllideb gyffredinol;


- Cynnydd o £2,408.60 ar gyfer parodrwydd, cydymffurfiaeth a monitro effaith: roedd hyn yn ymwneud â'r costau gwirioneddol a hawliwyd gan y cwmni allanol sy'n darparu ymchwil, fel rhan o gontract a ddyfarnwyd yn dilyn proses caffael cyhoeddus lawn.

Nid yw'r gostyngiad mewn 'costau suddedig' o gymharu â'r rhai a ragwelwyd yn wreiddiol yn effeithio ar y buddsoddiad o £20 miliwn yn y rhaglen drawsnewid mewn unrhyw ffordd. Mae'r costau suddedig hyn yn ychwanegol at y pecyn cyllid o £20 miliwn, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017-18 i 2020-21.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ar y pwynt penodol hwn.

Fel y soniais wrth gyflwyno fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor heddiw, yn ystod yr wythnosau nesaf byddaf yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar opsiynau gweithredu ac yn gwneud datganiad ynghylch dull gweithredu arfaethedig y Llywodraeth. Byddaf yn ysgrifennu atoch chi eto gyda'r diweddaraf am unrhyw newidiadau i broffil y gweithgareddau o fewn yr £20 miliwn y byddwn yn penderfynu eu gwneud yng ngoleuni cynlluniau gweithredu.

Yn gywir,



Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language